# MELYN MAIR

## 1 HAU DY HADAU

Mae modd hau melyn Mair rhwng mis Mawrth a mis Mai. Gelli di eu hau nhw'n syth i'r gwely llysiau. Gwna rigolau 1cm o ddyfnder gan adael 20cm rhwng pob rhes. Dyfria'r rhigol ac yna taenu dy hadau yn denau ar hyd y rhigol. Rho ychydig bach o bridd dros y rhigol.


Mae melyn Mair yn blanhigyn 'caled'. Hynny yw, mae'n gallu goroesi dros y gaeaf. Felly, gelli di eu hau nhw ym mis Medi hefyd i gael blodau cynnar y flwyddyn nesaf.

## 2 TENEUO

Pan fydd y planhigion bach yn 5-10cm o daldra, bydd angen lle iddyn nhw dyfu. Tynna'r planhigion llai a gwannach yn ofalus. Dylet ti adael 25cm rhwng pob planhigyn.

## 3 TORRI

Pan fydd y pennau blodau wedi agor yn llawn, tynna'r petalau i'w hel. Tynna nhw'n syth cyn eu defnyddio nhw. Gelli di storio'r blodau yn yr oergell am hyd at dri diwrnod. Defnyddia'r petalau i roi lliw mewn salad.




## COFIA

Tynna unrhyw flodau marw neu sydd wedi gwywo. Mae hyn yn annog y planhigyn i gynhyrchu mwy o flodau.

Mae melyn Mair yn 'gyfaill blanhigyn' rhagorol. Hynny yw, mae'n helpu i gadw plâ oddi ar dy gnydau, fel tomatos, pys, moron a letys.



Newydd egino



Planhigion ifanc



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES